

Croesawu plant a'u teuluoedd unwaith eto i babell yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd

Wedi dwy flynedd o eisteddfota rhithiol, a thair blynedd ers Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd, bu'n braf cael cyfarfod wyneb yn wyneb eto ar gae ar gyrion Dinbych. Gyda mudiad yr Urdd eleni yn dathlu ei ganmlwyddiant, gwnaed ymdrech arbennig i drefnu gŵyl gofiadwy, â thri pafiliwn yn llawn bwrlwm a thri llwyfan perfformio ar y maes yn ogystal. Bu'r weledigaeth o gynnal arbrawf newydd gyda gŵyl Triban yn llwyddiant, gyda cerddoriaeth fyw ar y maes tan yn hwyr y nos. Llongyfarchiadau i bawb am y trefniadau, yn bwyllgor canolog a llu o wirfoddolwyr yn lleol.

O ran yr elfennau ffydd, dechreuwyd yr wythnos gydag oedfa yng Nghapel Mawr Dinbych, a'r capel yn gyfforddus lawn. Fe'n croesawyd gan y gweinidog, y Parch Ddr Andras Iago, a chafwyd oedfa fendithiol o dan arweiniad plant ac ieuencid y fro, aeth â ni ar daith hanesyddol oedd yn cwmpasu can mlynedd o negeseuon Heddwch ac Ewyllys Da. Mae ieuencid Cymru wedi bod ar flaen y gad ers can mlynedd yn cyhoeddi ffordd heddwch a thangnefedd ar gyfer ein byd, a'r neges honno'n cael ei chyfieithu i gant o ieithoedd a'i hanfon i bedwar ban byd erbyn hyn.

Bu hefyd yn braf cael tystiolaeth Gristnogol ar brif faes y brifwyl, ac yn ôl yr arfer bu Cytûn, Cyngor yr Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol yn cydweithio i gynnal stondin lawn prysurdeb a gweithgarwch.



Lansio adnodd newydd ar ysbrydolrwydd Cristnogol gyda'r Eglwys Fethodistaidd

O ran gwaith plant, roedd wyth bwrdd / gorsaf gweithgaredd yno, yn cynnwys bwrdd Lego, peiriant gwneud bathodynau, creu ffenest liw, taflenni lliwio a crefft, Jenga, Connect 4 mawr, gwneud breichledau a bwrdd clai. Yn ogystal, roedd fferins a diodydd oer yn cael eu rhannu yn rhad ac am ddim yn ystod yr wythnos.

Bob dydd am 11 o'r gloch cynhaliwyd oedfa fer, yn cynnwys darllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, a gweddi heddwch wrth i ni gofio am sefyllfa enbyd trigolion Wcráin.



Bwrlwm y gweithgaredd yn ystod yr wythnos



[*\(parhad ar y dudalen nesaf\)*](#)

Croesawu plant a'u teuluoedd unwaith eto i babell yr eglwys yn Eisteddfod yr Urdd

(parhad o dudalen 1)

Bu staff Cymorth Cristnogol hefyd wrthi'n brysur yn creu murlun anferth yn dangos amrywiaeth byd Duw, ac mae hwnnw bellach ar ei ffordd i'r gadeirlan ym Mangor fel rhan o arddangosfa gelf. Bu nifer o ysgolion Sul lleol hefyd yn creu murluniau ymlaen llaw, ac roedd y rhain i'w gweld yn addurno waliau'r babell yn ystod yr wythnos. Mae ein diolch yn fawr hefyd i'r holl wirfoddolwyr o blith ysgolion Sul y fro a fu gyda ni'n croesawu pawb i'r babell ac yn helpu i gynnal y gwahnaol weithgareddau crefft. Bydd y gweithgareddau hyn eto'n cael eu cynnal ym mhabell yr eglwys yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Felly, os byddwch yn mynychu'r gwyliau hyn yng



Croesawu Andrew Sully i mewn i'r stondin er mwyn diolch iddo

nghwmni plant, cofiwch fod 'na ddigon o bethau i ddiddanu'r rhai rhwng 3 a 15 oed yn y babell, tra bydd 'na baned a theisen gri ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Yn ystod yr wythnos yn Ninbych bu'n braf cael croesawu'r Parch. Andrew Sully, ficer ardal Llandudno, atom. Roedd ef wedi bod yn brysur yn cerdded o gwmpas cestyll gogledd Cymru er mwyn codi arian at Gymorth Cristnogol. Cafodd ei groesawu gan Llinos Roberts, a derbyniodd ddiolch am yr holl waith gan Nan Wyn Powell Davies.

Cafwyd sawl sgwrs adeiladol hefyd gan arweinwyr eglwysig, a braf oedd cael cwmni Aled Edwards a Gethin Rhys o Cytûn yn y babell.

Cawsom ddigwyddiad arbennig hefyd o dan nawdd yr Eglwys Fethodistaidd, lle lansiwyd adnodd newydd, dwyieithog, ar ysbrydolrwydd Cristnogol.

Yn ôl yr arfer, roedd stodin lyfrau eang yno hefyd, a chafwyd degau o sgysiau yn ystod yr wythnos gan arweinwyr gwaith plant ac ysgolion Sul. Bu treulio wythnos yn yr eisteddfod yn fodd i gadarnhau ein hofnau, sef bod llawer o waith da wedi dod i ben yn ystod y cyfnod clo, a llawer o arweinwyr wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi. Diolch am bob sgwrs gadarnhaol a gafwyd hefyd, lle roedd rhieni ac arweinwyr yn mynegi dyhead i gychwyn gwaith newydd, boed yn glwb ar ôl ysgol, oedfa deuluol anffurfiol a sawl syniad creadigol arall. Bydd Aled Davies yn crynhoi rhai o'r awgrymiadau hyn mewn erthygl ar gyfer Cenn@d yn ystod yr wythnosau nesaf.



Detholiad o'r adnoddau gan Gyhoeddiadau'r Gair oedd ar werth ar y stondin

Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch



Cafwyd Wythnos Cymorth Cristnogol brysus yn ardal Llanbed. Diolch i bawb fu'n trefnu'r gweithgareddau ac am eu rhoddion caredig. Cynhaliwyd Bore Coffi ar 14 Mai yn Neuadd Eglwys San Pedr, Llanbed. Eglwys Sant Tomos, Llanbed, oedd lleoliad yr oedfa fore Sul, 15 Mai, dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Flis Randall. Daeth ei neges o Lyfr y Datguddiad; cyfeiriodd at 'Goeden Bywyd' a chafodd y gynulleidfa gyfle i gyfrannu eu gweddïau ar y dail a'r ffrwythau papur a osodwyd ar y goeden.

Eglwysi Plwyf Pencarreg a Chapel Bethel, Parc-y-rhos, fu'n gyfrifol am y Bore Coffi a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cwm-ann fore Llun, 16 Mai. Daeth tyrfa o bell ac agos yno i gymdeithasu a chloncian dros baned a chacen. Agorwyd y bore gan y Parchedig Carys Hamilton, ficer Plwyf Pencarreg, sy'n cynnwys eglwysi Pencarreg, Cwm-ann, Llanycrwys, Cellan a Llanfair Clydogau. Trefnwyd stondin gacennau a raffl, a bu sawl un yn crafu pen wrth ddyfalu pwysau'r gacen! Twynog Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch, gyflwynodd y diolchiadau.

Capel Brondeifi oedd yn croesawu'r byd a'r betws am 'Frecwast Mawr' yn ei festri fore Mercher, 18 Mai. Roedd y selsig, cig moch, yr wyau a'r ffa pob, ynghyd â'r tost a'r marmalêd, y te a'r coffi yn flasus dros ben. Roedd ffrwythau ac iogwrt hefyd ar gael i'r rhai oedd eisiau brecwast â llai o galoriau. Dechreuodd y coginio cyn 7.00 y bore a daeth tyrfa o bell ac agos yno am frecwast wnaeth fodloni'r rhai mwyaf llwglyd! Cyrhaeddodd rhai wedi taith gerdded hamddenol o gwmpas Campws Llanbed Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, dan arweiniad y Parchedig Flis Randall a Deborah Angel o Eglwys Sant Tomos. Teithiodd criw ffilio Tinopolis o'r rhaglen *Prynhawn Da* o Lanelli am 'Frecwast Mawr'. Cynhaliwyd sawl cyfweiliad a ddarlledwyd ar S4C yn tynnu



Twynog Davies, Cadeirydd Pwyllgor CC Llanbed a'r Cylch; Deborah Angel, aelod o Bwyllgor CC Llanbed a'r Cylch ac Ysgrifennydd Eglwys Sant Tomos, a'r Parchedig Flis Randall, Gweinidog Eglwys Sant Tomos, tu allan i Eglwys Sant Tomos, 15 Mai

syllw at ymdrechion Pwyllgor Llanbed a'r Cylch yn cefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol.

Credir mai Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, gafodd y daith hiraf – o Gaerdydd i Lanbed. Daeth gyda Tom Defis, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymorth Cristnogol, sy'n byw yn Sir Gâr ac yn gefnogol i waith Pwyllgor Llanbed a'r Cylch. Cyfeiriodd Mari a Tom at bwysigrwydd gwaith cymunedau sy'n ysgogi'r gymuned leol i gynnal gweithgareddau'n flynyddol er budd yr elusen. Diolchwyd i'r ddau am eu cefnogaeth gan Twynog Davies, a ddiolchodd hefyd i'r trefnwyr am 'Frecwast Mawr' mor llwyddiannus.

Cynhaliwyd gweithgareddau eraill yn ardal Llanbed ym Mai yn cefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol. Cynhaliwyd taith gerdded gan Gapel Bethel, Silian, ar 29 Mai, rhan o weithgareddau Cylch Bedyddwyr Gogledd Teifi. Cafwyd taith hamddenol yn mwynhau gogoniant byd natur megis y barud coch a'r boda a rhai o blastai hanesyddol y fro, megis Plas y Gelli, Trefilan a Llanllyr, Tal-sarn. Trefnwyd taith gerdded hefyd gan Gapeli Undodaidd Aeron Teifi, a'r holl deithiau cerdded nid yn unig yn codi arian ond hefyd yn cyfrannu camau at gyflawni'r 'Her 300,000 o gamau' Cymorth Cristnogol ym Mai. Mae cyfanswm camau



Criw taith gerdded Capel Bethel, Silian, prynhawn Sul, 29 Mai

aelodau Pwyllgor Llanbed a'r Cylch yn nesáu at ddwy filiwn erbyn hyn! Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cerdded a noddi camau cymaint o gerddwyr!

Derbyniwyd rhoddion hefyd drwy ein tudalen ar wefan GiveStar gan ddefnyddio templed Cymorth Cristnogol. Diolch yn ogystal i'r siopau yn Llanbed a Llanybydder wnaeth dderbyn blwch casglu arian i dderbyn cyfraniadau.

Dymuna Twynog Davies, ar ran Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch, ddiolch i bob un sydd wedi trefnu cymaint o weithgareddau codi arian eleni. Dyma ddywedodd yn ddiweddar am bwysigrwydd Cymorth Cristnogol:

'Mae pawb ohonom fel Cristnogion yn teimlo dyletswydd i helpu'r difreintiedig a'r anghenus ymhle bynnag y maent yn y byd. Da yw cael cofnodi fod y gwaith yn mynd yn ei flaen gyda phwyllgor gweithgar a brwdfrydig yn Llanbed a'r Cylch, a brait yw bod yn Gadeirydd. Cofiw'n fod gwaith Cymorth Cristnogol mor bwysig ag erioed yn y cyfnod heriol yma lle mae cymaint o angen nid yn unig yn Wcráin a Zimbabwe, ond mewn nifer o wledydd tlawd y byd.'

*Rhys Bebb Jones,
ar ran Pwyllgor Cymorth Cristnogol
Llanbed a'r Cylch*



Bore Coffi Eglwysi Plwyf Pencarreg yng Nghanolfan Cwm-ann, 16 Mai



Criw taith gerdded Capel Bethel, Silian prynhawn Sul 29 Mai

Cael gwared ag oedfa'r hwyr: dechrau'r diwedd neu gyfle newydd?

Profiad Caersalem, Caernarfon

Cyn y pandemig roedd yr oedfa hwyrol yng Nghaersalem, Caernarfon, yn parhau'n sefydlog. Roedd criw ychydig yn llai na'r bore yn dod, ond nid oedd unrhyw ffridiad i gael gwared ohoni. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod clo setlwyd i batrwm o gynnal oedfa ar-lein yn y bore yn unig ac felly, wrth i ni ailafael mewn cyfarfodydd cyhoeddus y llynedd, roedd yn rhaid gofyn y cwestiwn: beth am yr oedfa hwyrol?

Yn reddf, roedd cael gwared â'r oedfa hwyrol yn teimlo fel methiant, yn teimlo fel colli tir ac fel trai. Ond, trwy ras Duw, nid dyna stori Caersalem yn gyffredinol. Mewn oes seciwlar rydym wedi cael y fraint o dystio i rywfaent o dwf eglwysig a bendith yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Felly, sut oedd modd gollwng yr oedfa hwyrol heb i hynny deimlo fel methiant? Neu, a bod yn onest, sut roedd peidio cynnal oedfa hwyrol heb deimlo'n euog am y peth?

Yn y diwedd daethom i delerau â'r penderfyniad am ddau reswm. Yn gyntaf, roeddem ni'n ymwybodol iawn fod bywydau ein haelodau yn eithriadol o brysor – yn arbennig felly'r rheiny mewn swyddi proffesiynol, teuluoedd â phlant, ac aelodau oedd yn gofalu am deulu a chyfeillion bregus. I lawer, roedd bywyd mor brysor fel nad oedden nhw'n cael cyfle i orffwys a chael Sabbath go-iawn, a rhan o'r broblem oedd prysurdeb ein rhaglen ni fel eglwys. Yn hytrach na bod yn fendith, roedd rhaglen brysor bywyd yr eglwys ar adegau wedi dod yn faich.



Wrth ollwng yr oedfa hwyrol roeddem yn rhoi mwy o ofod yn yr wythnos i'n haelodau gael gorffwys gyda theulu a ffrindiau.

Ond yr ail reswm pam roeddem yn dawel ein meddyliau wrth gael gwared â'r oedfa hwyrol oedd er mwyn cael noson yn y dyddiadur i wneud rhywbeth gwahanol a newydd. A dyna yw'r datblygiad diweddaraf yn yr eglwys: noson 'Caru Caersalem', noson o hwyl, rhannu a chlywed lleisiau gwahanol o fewn yr eglwys ... Mae'n bopeth heblaw oedfa.

Ar un olwg mae'n noson gymdeithasol gyda phaned, cacen, a hyd yn oed gemau yn rhan ganolog. Fe'i disgrifiwyd gan un person fel clwb ieuenctid i bobl sy'n dal yn ifanc eu hysbryd! Ond mae elfen ysbrydol tu ôl i'r weledigaeth hefyd, sef creu gofod i ddatblygu'r eglwys i fod yn wir gymuned ac yn fwy na dim ond cyfres o gyfarfodydd. Bydd yn noson fydd yn ceisio normaleiddio'r arfer o siarad am sut mae Duw wedi bod ar waith yn ein bywyd. Moto'r noson yw: "Dyma sut bydd pawb yn gwybod eich bod chi'n ddilynwyr i mi, am eich bod chi'n caru'ch gilydd." (Ioan 13.35)

Rhan bwysig arall o'r weledigaeth yw fod y noson yn cael ei threfnu a'i chynnal gan aelodau o'r eglwys sydd heb lawer o brofiad, neu ag ychydig o brofiad, o drefnu ac arwain o fewn yr eglwys. Hynny yw, mae'r noson yn ffridiadol agored i bobl brofi eu doniau a cheisio gweithredu'r



egwyddor o offeiriadaeth yr holl saint yn well. Ac felly, nid ydw i fel Gweinidog nac unrhyw aelod arall o Dîm Arwain yr eglwys yn cael bod â rhan yn y trefnu a'r cynnal. I bobl sydd yn fy adnabod, nid yw cymryd cam yn ôl yn dod yn naturiol i mi, ond weithiau mae'n rhaid i arweinwyr wneud hyn er mwyn creu gofod i eraill fedru camu i mewn a phrofi eu doniau mewn awyrgylch ddiogel.

Arbrawf yw'r noson ar hyn o bryd ac roedd y sesiwn gyntaf yn fendith. Rydym am ei chynnal am rai wythnosau'r tymor yma a chawn weld beth ddaw o'r weledigaeth yn y dyfodol. Ond mae'n ddameg dda ynglŷn â sut mae gwneud penderfyniad anodd fel dirwyn yr oedfa hwyrol i ben yn gallu clirio gofod wedyn i Dduw wneud rhywbeth newydd ymhlith ei bobl.

Rhys Llwyd



Cytûn yn y Sioe Fawr



Cofiwch alw i mewn ym Mhabell yr Eglwysi – Uned 20 yn rhes D – yn ardal y stondinwyr os byddwch yn mynd i Lanelwedd eleni ar gyfer y Sioe Fawr, 18–21 Gorffennaf. Byddwn ar agor bob dydd rhwng 9.00 a 5.30.

Ymhlith yr atyniadau yno fe fydd:


- paned a bisged, a diod oer i'r plant
- oedfa fer bob dydd am 11.00
- gweithgaredd i blant trwy gydol y dydd
- gorsaf weddi a myfyrdod i oedolion
- arddangosfa gan Gymorth Cristnogol
- dewis eang o lyfrau Cristnogol yn Gymraeg a Saesneg
- cyfle am sgwrs a seibiant o fwrlwm y maes
- croeso cynnes i bawb.

Cadwch olwg hefyd am y tîm o gaplaniaid, yn eu siacedi melyn llachar, a fydd allan yn crwydro'r maes yn cynnal sgysiau hwnt ac yma.

Yn ogystal â phresenoldeb o fewn y stondin, cofiwch hefyd am oedfa'r Sioe, a gynhelir dan nawdd y Llywydd yn Eglwys y Santes Fair yn nhref Llanfair-ym-Muallt am 6.00 nos Sul, 17 Gorffennaf.

Cynhelir Gymanfa Ganu Moliant y Maes hefyd am 8.00, ar faes y Sioe, ym Mhabell Cneifio'r Defaid, nos Sul, 17 Gorffennaf. Croeso cynnes i bawb ymuno yn y canu.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 / aleddavies@cytun.cymru



O'r Beibl: 4

Cyfes ar gyfer astudiaeth bersonol neu fel grŵp

Gair o Genesis

Darlenn: Genesis 1:1-25

"Pwy ydw i? Sut un yw Duw? Beth yw pwrpas bywyd? Beth sy'n bod gyda'r byd? Oes gobaith i'r ddynoliaeth?"

Mae'r rhain yn gwestiynau mawr, yn gwestiynau pwysig. Maen nhw'n gwestiynau sy'n llawer rhy bwysig i'w gadael heb eu gofyn na'u hateb, yn enwedig os oes atebion i'w cael iddynt.

Er i Genesis – llyfr cyntaf y Beibl – gael ei ysgrifennu filoedd o flynyddoedd yn ôl mewn iaith a diwylliant gwahanol, mae'r llyfr yr un mor berthnasol heddiw ag oedd pan gafodd ei ysgrifennu'n wreiddiol. Mae'n berthnasol gan fod yr hen lyfr hwn yn gofyn ac yn ateb yr un cwestiynau oesol. Er i'r ddynoliaeth amrywio'u geiriad o oes i oes, yr un cwestiynau yn y bôn y mae pobl wedi'u gofyn ar hyd y canrifoedd: "Pwy ydw i? Sut un yw Duw? Beth yw pwrpas bywyd? Beth sy'n bod gyda'r byd? Oes gobaith i'r ddynoliaeth?" Hen gwestiynau sy'n gwestiynau cyfoes.

Ym myfyrdodau'r wythnosau nesaf, byddwn yn treulio ychydig amser yn gofyn y cwestiynau hyn i lyfr Genesis. Yn ddi-os, bydd Genesis yn herio rhai o'n rhagdybiaethau ac yn cynnig atebion sylweddol – os nad chwyldroadol – i'n cwestiynau dyfnaf.

Gofyn y cwestiynau cywir

Cyn troi at y llyfr ei hun, mae'n bwysig gofyn pa fath o lenyddiaeth yw Genesis a sut mae mynd ati i ddarlenn y llyfr hwn? Y peth cyntaf i'w nodi yw nad gwerslyfr gwyddonol yw *genre* Genesis ac ni ddylid mynd ati i'w ddarlenn fel llyfr o'r fath. Y cwestiwn y mae gwyddoniaeth yn ei ofyn yw *sut*? *Sut* mae atomau'n dod at ei gilydd i ffurfio moleciwl? *Sut* mae morgrugyn yn anadlu? *Sut* mae disgyrchiant yn gweithio? *Sut* mae ffotosynthesis yn digwydd mewn cloroplast? Heb os, ni wnaeth Duw ysbrydoli Moses i ysgrifennu Genesis i ateb y fath gwestiynau. Peth annheg fyddai disgwyl i Genesis ateb cwestiynau na fwriadwyd iddo eu hateb.



Bwriad Genesis yw ateb cwestiynau o fath gwahanol. Nid *sut*, ond *pam* a *phwy*. Yn wir, nod Genesis yw ateb cwestiynau fel: *Pam* wnaeth Duw greu'r byd a'r bydysawd yn y lle cyntaf? *Pwy* yw'r Duw sydd wedi creu popeth? *Pwy* yw'r ddynoliaeth y mae Duw wedi ei chreu ar ei lun a'i ddelw? *Pam* rydym ni'n bodoli? Felly, gan fod Genesis a gwyddoniaeth yn ateb cwestiynau gwahanol i'w gilydd, perthynas gyflenwol (*complementary*), nid anghymharus (*contradictory*), sydd ganddynt â'i gilydd. Nid bwriad Genesis yw ateb *sut*; ni all gwyddoniaeth ateb *pam*. Fel y dywedodd Isaac Newton, y gwyddonydd enwog a ddarganfu rym disgyrchiant: "Mae disgyrchiant yn gallu esbonio symudiadau'r planedau, ond ni all egluro pwy yw'r un osododd y planedau i symud."

'Pwy yw Duw?'

Y cwestiwn cyntaf sy'n cael ei ofyn a'i ateb gan Genesis yw: "Pwy yw Duw?" Oes yna unrhyw gwestiwn sy'n haeddu ein sylw yn fwy na'r un hwn?

Mae Genesis yn dechrau drwy egluro mai Duw yw'r Creawdwr sofran. Geiriau cyntaf y llyfr yw: 'Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear' (Genesis 1:1). Cyn i Dduw greu'r cosmos, roedd ef yn bod yn dragwyddol. Er hynny, gan fod Duw yn Drindod o dri pherson – y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân – nid oedd yn unig; nid oedd yn anghyflawn. Ers tragwyddoldeb, roedd Duw wedi byw fel cymdeithas o bersonau lle'r oedd y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân yn ymwneud â'i gilydd mewn cariad perffaith. Felly, ni wnaeth Duw greu'r byd oherwydd

ei fod eisiau rhywbeth i'w wneud, neu am ei fod yn chwilio am ffrind yn ei unigrwydd; creodd y byd er mwyn rhannu ei gyflawnder ag eraill – gyda ni.

Y Duw hwn yw Creawdwr popeth. Nid oedd dim yn bod cyn iddo fe eu creu ac fe greodd bopeth allan o ddim byd (*ex nihilo* oedd geiriau Lladin yr hen ddiwinyddion). Pwyslais Genesis 1 ydy fod popeth wedi'i greu gan y Duw nerthol hwn: y nefoedd, y ddaear, goleuni, yr awyr, y moroedd, yr haul, y galaethau, y sêr, y planhigion, y barcud coch, y morfilod, yr hipopotamws, chi a fi. Duw yw Creawdwr popeth ac mae Genesis 1 yn dangos fod trefn ardderchog i'r cyfan mae wedi ei greu.

Nid dim ond pwysleisio mai Duw yw'r Creawdwr y mae Genesis; mae hefyd yn dangos mai fe yw'r Creawdwr *da*. Saith gwaith yn Genesis 1, mae Duw yn edrych ar ei greadigaeth ac yn meddwl: 'gwelodd fod hyn yn *dda*'. Gan fod Duw yn berffaith dda, mae'r hyn mae'n ei greu hefyd yn dda. Mewn geiriau eraill, does dim yn bod gyda'r hyn mae wedi'i greu – mae popeth yn gwbl ddaionus. Popeth yn ei le, popeth yn drefnus, popeth yn dda. Wrth gwrs, rydym mewn byd sy'n edrych yn dra gwahanol heddiw gan ein bod ni'n byw ar ôl trasiedi enfawr Genesis 3: Cwmp dynoliaeth i bechod, trasiedi sydd wedi effeithio ar bob elfen o'r byd hyd y dydd hwn. Ond down ni at hynny yn nes ymlaen!

Cymhwyso

Sut mae cymhwyso'r gwirioneddau hyn i'n bywydau bob dydd ni fel Cristnogion? Wel, gan mai Duw yw'r Creawdwr, fe sydd biau ein bywydau. Ei eiddo ef ydym ni; rydym yn bodoli er ei fwyn ef. Wedi'r cyfan, anghyflawn yw pob creadur heb ei Greawdwr. Does dim yn bwysicach na dod i'w adnabod ef yn well a byw ein bywydau er ei fwyn.

Yr wythnos hon, beth am i ni feddwl yn fwriadol ynglŷn â sut mae cynnwys Duw yn ein holl benderfyniadau, ein holl ddewisiadau a'n holl gynlluniau ar gyfer y dyfodol?

Beth am ddarlenn penodau cyntaf Genesis eto er mwyn ystyried y ffordd y mae'r adnodau hyn yn cynnig atebion sylweddol a chwyldroadol i'n cwestiynau dyfnaf?

Gwilym Tudur

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 19 Mehefin, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Yr wythnos yma cawn fwynhau emynau o bob rhan o Gymru yng nghwmni Nia Roberts.

Dyma gopi o [gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol](#) am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

BBC radio cymru

Radio Cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 19 Mehefin, am 7:30yb a 4.30yp

Gareth Glyn yn trafod yr emyn 'Mi glywaf dyner lais' a'r dôn Gwahoddiad, gan mlynedd a hanner ar ôl ei chyfansoddi.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 19 Mehefin, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Miriam Watling, Llundain

Dathlu yng Nghaerfyrddin!



Roedd awyrgylch byrlymus yn y Priordy, Caerfyrddin, ddydd Sul, 22 Mai 2022, wrth i aelodau'r Ofalaeth (Eglwys Annibynnol y Priordy a Chana, ac Eglwys Bresbyteraidd Bancyfelin) ddod ynghyd i ddiolch am ugain mlynedd o gydweithio a chydaddoli a mwynhau dan arweiniad ein gweinidog, Beti-Wyn. Bu'n ugain mlynedd o fentro ac arloesi mewn sawl ffordd, a'n gobaith yw y byddwn yn parhau ar hyn y llwybr hwn gan barchu'r gorffennol ac adeiladu arno.

A pha well ffordd o ddathlu rhywbeth nodedig na thrwy gynnal oedfa deulu?

Hyfryd oedd creu darlun o'r eglwys fel cwch, gyda rhwyf gan bob aelod a'r angen i bob un ohonom rwyfo gyda'n gilydd er mwyn symud ymlaen. Roedd y clip fideo ac emyn trawiadol Siôn Aled (O llanwa hwyliau d'Eglwys – *Caneuon Ffydd*, 615) yn cadarnhau hynny i'r dim. Ie, gwaith tim yw eglwys, ac mae gan bob un ohonom ddawn a rhaid wrth gyfle i'w defnyddio. Ond mae'n rhaid cael capten hefyd, on'd oes? Ac mae ein dyled yn fawr i Beti-Wyn am fod mor effeithiol yn y swyddogaeth honno.

Bu lle canolog i'r plant yn yr oedfa ac esboniodd ein Gweinidog yn ei ffordd ddihafal ei hun sut y mae gan bob un ohonom, o'r ieuengaf i'r hynaf, ran i'w chwarae yn adeiladu Eglwys Iesu. Ategwyd hynny yn ein darlenniad a'n gweddi.

Bu Beti-Wyn mor ddewr ag wynebu cwestiynau gan y cyflwynydd profiadol Sulwyn Thomas! A chawsom gipolwg nid yn unig ar y blynyddoedd a fu ond hefyd ar yr heriau sy'n ein hwynebu. Clywsom sut mae adeiladu eglwys a'i chryfhau yn greiddiol i weinidogaeth Beti-Wyn, a sut mae gwyrth technoleg yn gallu chwarae rhan bwysig yn y broses o gwrdd ag angen ysbrydol pob un ohonom y dyddiau hyn.

Daeth yr oedfa i ben drwy ganu emyn arbennig John Gwilym Jones (Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn – *Caneuon Ffydd*, 627), â'r cytgan yn crynhoi pwyslais mawr ein gwasanaeth ar gydgerdded, cydaddoli a chydweithio.

Mae pob diwrnod dathlu da yn diweddu gyda gwledd – a dyna a gafwyd yng Nghlwb y Cwins, Caerfyrddin, yn ddiweddarach, gyda phawb yn mwynhau carferi a phwdin blasus iawn! Braf iawn hefyd oedd gweld cymaint o blant yn bresennol.

Paratowyd cacen hyfryd i ddathlu'r achlysur wedi'i darlunio'n gelfydd gyda lluniau'r tri chapel. Fe'i torrwyd gan Beti-Wyn, a diolch am gael ei blasu. Cyflwynwyd rhodd iddi hefyd ar ran yr ofalaeth gan Sulwyn Thomas, Cadeirydd ein Swyddogion, a weithredodd fel cyflwynydd drwy gydol y dathlu. Mynegodd Beti-Wyn ei diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Un o binaclau'r prynhawn oedd y ddeuawd enwog Peter Hughes Griffiths a Sulwyn yn datgan 'Penillion y Dathlu' o waith Peter. Y cyfeilydd oedd Meinir Lloyd – gyda chymorth Sulwyn ar yr iwcailili! Roedd y cyfan yn llawn hwyl ac yn codi gwên!

Diweddglo da i ddiwrnod da ac un yn sicr sy'n peri i ni fel gofalaeth edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus gyda'n Gweinidog.

Alun Charles

Cydymdeimlad

Trist gennym oedd clywed am farwolaeth y Parch JD Hughes, Llangefni. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i weddw a'i deulu i gyd yn awr eu profedigaeth. Cynhelir ei gynhebrwng ddydd Mercher, 15 Mehefin, ym Moreia, Llangefni. Ein gobaith yw cyhoeddi teyrnged iddo yn *Cenn@d* mor fuan ag y medrwn.

Gol.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

'Yn y dwys ddistawrwydd ...'

Emyn 165: 'Cydduned y nefolaidd gôr'

Gweddi

Arglwydd bendigedig, gweddiwn am diriondeb dy bresenoldeb heddiw. Tyrd atom, Dad nefol, a phâr i ninnau, wrth i ti ein cyfarch heddiw, lefain, 'Abba! Dad!' Amen.

Cyflwyniad

Y mae addewidion Duw yn sicr ac yn ddiogel. Rydym yn 'fwy na choncwerwyr drwy yr hwn a'n carodd' ac ni all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist. Profiad dyddiol y credadun, fodd bynnag, yw nad yw bywyd bob amser yn teimlo felly! Weithiau, mae ein hymdeimlad o'n methiannau yn ein llethu, a'r profiad o golli pob ymdeimlad o bresenoldeb yr Arglwydd ei hun fel 'sychder' o'n mewn sy'n ein harwain i ddyheu am yr Arglwydd drachefn. Neu weithiau, cawn ein byddaru gan watwargerdd y byd: 'Lle mae dy Dduw di rwan, a thithau'n teimlo mor isel?' Wrth i ni **ddarllen Salm 42**, gadewch i ni feddwl beth tybed oedd nodweddiad y diflastod a'r sychder ysbrydol a afaelodd yn y Salmydd? A beth oedd ei obaith yn ei gyfyngder?

Emyn 224: 'Fel yr hydd'

Darlleniad 1: Brenhinoedd 19:1-18

Does dim angen i ddarllenwyr *Cenn@d* gael eu hatgoffa o'r heriau sy'n wynebu'r dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru heddiw. Pwy ohonom sydd heb ddigalonni wrth weld ein hunain yn analluog i iacháu'r clwyf sy'n ein difetha? Mae'r aflwydd a gydiodd ynom yn ddyfnach na dawn elastoplast ein pwyllgorau i'w iacháu, a pharhau i wanychu a wnawn er gwaethaf ein holl ymdrechion.

Mewn cyfnod o gilio oddi wrth yr Arglwydd ymddangosodd Elias y proffwyd yn Israel yn ddirybudd, gan herio *status quo* y sefydliad oedd am hyrwyddo addoliad Baal, duw ffrwythlondeb a chynnydd, duw poblogaidd yr hen fyd. Credai ei addolwyr fod cyflawni gweithredoedd rhywiol yn nhemlau Baal yn hyrwyddo ffrwythlondeb y tir drwy sicrhau glawogydd yn eu tymor.

Er newid yr enwau, nid yw delweddau 'Baal' na phoblogrwydd yr anfoesoldeb sydd ynghlwm â'i addoliad wedi newid llawer dros y canrifoedd!

Gwrthdaro rhwng Baal a'r Arglwydd wedi ei bersonoli yn Jesebel ac Elias yw cefndir yr adnodau. Ystyr enw Jesebel yw 'Ym mhle y

mae y Baal?' ac ystyr enw Elias yw 'Fy Nuw yw Yah'.

Cafwyd gornest rhwng cefnogwyr Baal ac Elias ar fynydd Carmel. Adferodd Elias allor i'r Arglwydd oedd wedi ei hesgeuloso a'i difrodi. Methodd proffwyd niferus Baal â sicrhau ateb gan eu duw. Mewn ymateb i weddi Elias, disgynnodd tân o'r nef a dechreuodd y gynulleidfa gyhoeddi, 'Yr Arglwydd sydd Dduw'.

Yn y terfysg a ddilynodd, lladdwyd proffwyd Baal. A phan glywodd Jesebel am yr hyn ddigwyddodd, anfonodd neges fygythiol at Elias. Gallwn ddychmygu'r ofn afaelodd yn ei galon wrth feddwl am fygythiad Jesebel a'r brys oedd yn ei gamau wrth iddo ddianc o Samaria i Fynydd Horeb drwy Beerseba, dinas fwyaf deheuol Jwda.

Wrth ffoi, troediodd Elias yn ei ddychmyg ar hyd llwybrau ymyrraeth Duw yng ngorffennol ei bobl. Onid Abraham ei hun sefydlodd ddinas y 'saith ffynnon' yn Beerseba? Ac onid ar Fynydd Horeb y cyfarfu Duw â Moses? Tybed nad oedd rhyw hiraeth, 'gwyn fyd na ddeuant eto i lawr', yn ei yrru?

Ond beth bynnag oedd ei gymhellion, mae'n amlwg fod digalondid llethol wedi gafael yn Elias. Gallwn ei ddychmygu'n eistedd dan y goeden wedi ymladd ar ôl ei daith (adn. 4-5). Ac yn ei unigrwydd gwelwn ŵr oedd wedi llwyr anobeithio am fod ei weinidogaeth yn ymddangos mor ddiffwrth. Ni fedrai barhau i ffoi mwyach ac nid oedd ganddo nerth i sefyll chwaith! Onid gwell fyddai marw trwy drugaredd Duw, meddai, nag wynebu creulondeb Jesebel? Mae'n ymddangos bod ysbryd hunandosturiol wedi gafael ynddo (adn. 10) a bod Elias mewn perygl o golli pob synnwyr o bersbectif amdano'i hun. Ni fedrai wahaniaethu rhwng ei lafur ei hun a gwaith ehangach yr Arglwydd, a chwynai mai 'myfi fy hun yn unig sydd ar ôl'. (Ceir adlais o'r emosiynau yma yng ngweddi Elias yn Oratorio Elijah gan Mendelssohn: https://www.youtube.com/watch?v=Ao1qjA_7mO8)

Ac efallai, wedi iddo gyrraedd Mynydd Horeb ac oedi yno, fod yr ansicrwydd sy'n perthyn i bobl yr Arglwydd ar brydiau wrth i ni gofio am weithredoedd yr Arglwydd mewn dyddiau a fu wedi gafael ynddo.

Yno ar y mynydd, mewn tân a chorwynt a daeargryn, cafwyd arddangosfa o rym dwyfol. Medrai gofio am y 'gwynt nerthol' a agorodd lwybr gwaredigaeth ei genedl o gaethiwd yn yr Aifft, a gwyddai mai ar

Horeb y cyflwynwyd, mewn tân ysgubol, y Deg Gorchymyn i Moses (Deuteronomium 5:23-6). A chofiai sut y bu yntau'n dyst i'r tân a ddisgynnodd o'r nef i gysegru'r allor ar Fynydd Carmel. Yn ddiweddarach yn hanes Israel gallai'r Salmydd gyfeirio at ddaeargrynfeydd fel arwyddion o ddicllonedd barn Duw (Salm 18:7,12). Naill ai mewn gwaredigaeth neu mewn barn, dyheai Elias am gael gweld Duw ar waith!

Nid oedd Elias wedi deall bod yr Arglwydd eisoes ar waith yn ei fywyd. Roedd angen ysbaid i orffwyso ar Elias. Yn ei ludded a'i anobaith, daeth 'angel' ato i weini bwyd a diod, a sicrhau gorffwys iddo cyn iddo barhau ar ei daith.

Wedi iddo gyrraedd Horeb, gorfodwyd Elias i wynebu ei gymhellion dyfnaf ei hun: 'Pam wyt ti yma?' 'Beth sy'n dy flino?' yw cwestiwn yr Arglwydd. A dwywaith cafodd Elias gyfle i fynegi ei bryder: 'Bûm i'n selog iawn dros ARGLWYDD Dduw y Lluedd; cefnodd yr Israeliaid ar dy gyfamod, a bwrw d'allorau i lawr, a lladd dy broffwyd â'r cledddyf; myfi'n unig sydd ar ôl, ac y maent yn ceisio f'eiinioes innau.'

Ni dderbyniodd Elias yr ateb i'w bryderon ac ni phrofodd adferiad i'w enaid drwy arddangosfa ddiliffethair o rym yr Arglwydd. Nid oes raid i'r Arglwydd ailadrodd gweithredoedd ddoe er mwyn cadarnhau ei waith heddiw.

Y tro hwn, mewn distawrwydd, mewn llonyddwch llethol daeth yr anogaeth yr oedd Elias yn ei cheisio. Deallodd fod gwaith yr Arglwydd mewn llaw. Doedd o ddim ar ei ben ei hun gan fod 7,000 heb blygu glin i Baal. Ac er na ddeallai Elias sut yr oedd eneinio Hasael yn frenin Syria, na Jehu yn frenin ar Israel, yn rhan o fwriadau cyfiawn a grasol yr Arglwydd, mae'n sicr fod yr wybodaeth y byddai Eliseus yn parhau â'i dystiolaeth i'r Arglwydd mewn cenhedlaeth newydd yn ddigon o symbyliad i'w yrru yn ôl at ei waith.

Gweddi

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti, er gwannedd y mae tystiolaeth i efengyl Iesu Grist yn ymddangos i ni heddiw, fod 'saith mil' ffyddlon yn weddi yn y tir yn barod ar gyfer gwanwyn newydd. Ac er i ni ddyheu am rym achubol dramatig dy ras yn ein plith, caniatâ i ni fedru adnabod dy leferydd yn y distawrwydd llethol yn ein cymhyso i'r gwaith y cawsom ein galw iddo.

Emyn 781: 'Yn y dwys ddistawrwydd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru